Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (Ac Eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid)

Dyddiad archwilio: 23 – 27 Mai 2016
Archwiliad dilynol: 10 – 11 Ionawr 2024

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.24 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn erbyn y rheiny sydd ar gael. Hefyd, dylid sicrhau bod y gwelliannau'n cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r amrywiadau a nodwyd. [Y Safon – 3.1] | Gwyrdd | | Mae safleoedd heb sgôr hylendid wedi'u cynnwys yn y galw am wasanaethau, ac mae'r cynllun yn nodi lle y dylai ymweliad safonau ddigwydd gyntaf.<br><br>Mae'r cynllun yn cynnwys asesiad cyfunol o'r diffygion adnoddau ar gyfer swyddogaethau hylendid a safonau bwyd.<br><br>Mae tueddiadau cyffredinol y gyllideb a dadansoddiadau o gostau gwasanaeth hefyd wedi'u cynnwys. | Darparu eglurder ar y galw a grëwyd gan safleoedd nad ydynt wedi cael sgôr ar gyfer safonau bwyd.<br><br>Sicrhau yr eir i'r afael â'r holl amrywiadau yn y meysydd i'w gwella. Mae angen mynd i'r afael ag absenoldeb adnoddau samplu safonau bwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae meysydd i'w gwella wedi mynd i'r afael yn bennaf â'r amrywiadau a nodwyd. | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| Camau gweithredu mewn perthynas â Chynllunio Gwasanaeth yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae nifer a chategorïau'r ymyriadau hylendid bwyd sy'n weddill wedi'u darparu. | Cwblhawyd |
| 4.6 (i) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn unol â'i weithdrefnau rheoli dogfennau. [Y Safon – 4.1] | Glas | Adolygiad 5 mlynedd o'r polisi gorfodi yn mynd o flaen y Cyngor ar 26/3/19 | | Cwblhawyd |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau cronfa ddata yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | Gweithdrefnau cronfa ddata wrth gefn ar waith | Cwblhawyd |
| 5.8 (i) Sicrhau bod swyddogion gorfodi bwyd wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan yr holl ddeddfwriaeth briodol ac yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.1] | Glas | Awdurdodiad swyddogion gorfodi bwyd o dan statudau sy'n gofyn am awdurdodiad penodol, yn enwedig deddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, i'w adolygu a'i | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddiweddaru. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.22 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd ac AES eu cynnal ar yr amlderau gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | | Gwasanaeth yn adfer yn sgil effeithiau pandemig COVID-19, gyda chynllun sy'n seiliedig ar risg ar waith er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniad o ymyriadau. | Ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r amlderau gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | | Cwblhawyd |
| 7.22 (ii) Sicrhau, lle bo'n berthnasol, fod y gwaith o gymeradwyo sefydliadau a dyfarnu sgoriau risg yn cael ei wneud yn gyson, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, y canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2] | Glas | | | Cwblhawyd |
| 7.22 (iii) Asesu'n llwyr gydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol; yn enwedig, mewn perthynas ag asesu gofynion HACCP, | Glas | | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| trafodaethau â'r rheiny sy'n trin bwyd, gwiriadau ar farciau iechyd/adnabod ac asesu'r trefniadau ar gyfer tynnu cynhyrchion a'u galw yn ôl [Y Safon – 7.3]. | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.22 (iv) Sicrhau bod yr arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gafwyd yn ystod arolygiad hylendid bwyd, gan gynnwys maint, graddfa a chwmpas y gweithgareddau, yn cael eu cofnodi'n brydlon fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Glas | | | Cwblhawyd |
| Camau gweithredu mewn perthynas ag adroddiadau arolygu yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | | Cwblhawyd |
| 7.37 (i) Sicrhau bod sgoriau risg safonau bwyd yn gyson â'r wybodaeth sy'n cael ei chadw ar ffeil. [Y Safon – 7.2] | Glas | | | Cwblhawyd |
| 8.8 (i) Sicrhau bod y rheiny sy'n cwyno yn cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau i gŵynion am hylendid bwyd a safonau bwyd [Y Safon – 8.2] | Glas | | | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 12.11 (i) Datblygu ei weithdrefn samplu gofnodedig ymhellach i gynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud ag offer, samplu bwydydd mewn gwahanol gyflyrau, caffael, parhad tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau tra bo’r rhain o dan reolaeth yr awdurdod. [Y Safon – 12.5] | Glas | | | Cwblhawyd |
| 12.11 (ii) Sicrhau y cynhelir gwaith samplu yn unol â deddfwriaeth, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a’i weithdrefn gofnodedig ei hun; yn benodol, rhoi gwybod i weithredwyr busnesau bwyd ac awdurdodau eraill am ganlyniadau gwaith archwilio/dadansoddi [Y Safon – 12.6] | Glas | | | Cwblhawyd |
| 13.9 (i) Datblygu ymhellach y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy’n gysylltiedig â bwyd i gynnwys trefniadau lleol gyda chyfeiriad penodol at y broses ymchwilio. [Y Safon – 13.2] | Glas | | | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 15.15 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymweliadau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | Glas | Adolygu hysbysiadau presennol ar gyfer rheoli bwyd wedi'i fewnforio'n fewndirol yn sgil unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i Ymadael â'r UE. | Mae gweithdrefnau gorfodi cofnodedig wedi'u datblygu ar gyfer pob opsiwn gorfodi. | Cwblhawyd |
| 15.15 (ii) Sicrhau y caiff camau gorfodi ynghylch hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.3] | Gwyrdd | | Hysbysiadau Camau Unioni wedi'u cymhwyso'n gywir.<br><br>Ni chynhaliwyd unrhyw gytundebau cau gwirfoddol na Rhybuddion Syml o fewn cwmpas yr archwiliad ac felly maent yn dal i fod heb eu profi. | Sicrhau bod gwiriadau amserol ar gydymffurfiaeth â Hysbysiadau Gwella Hylendid yn cael eu cynnal yn gyson a bod cadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfiaeth yn cael ei gyhoeddi. Sicrhau bod cytundebau cau gwirfoddol yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig a bod ffeiliau Rhybuddion Syml yn cael eu llunio'n llawn. |
| 15.15 (iii) Sicrhau bod pob penderfyniad ar gamau gorfodi yn cael ei wneud a'i ddogfennu ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r | Glas | | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod. Rhaid cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| Camau gweithredu mewn perthynas â hysbysiadau cosb benodedig yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | | Cwblhawyd |
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | | Cwblhawyd |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **21** |
| **Cwblhawyd** | **18** |
| **Cynnydd da** | **3** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **0** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Cyfanswm heb ei gyflawni** | **3** |